# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

# Adran 6 – Bioamrywiaeth a Chydnerthedd y Ddyletswydd Ecosystemau






Un Llais Cymru
One Voice Wales

**Rhaid i awdurdod cyhoeddus[1] geisio[2] cynnal a gwella bioamrywiaeth[3] wrth arfer swyddogaethau[4] mewn perthynas â Chymru[5], ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau[6], i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol[7].**

1. Caiff awdurdodau lleol eu diffinio yn Adran 6 (9) a (10) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
2. Cymryd dull rhagweithiol.
3. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig canllawiau a chyngor ar sut mae gwneud hyn.
4. Drwy bob un o'ch meysydd gwaith presennol.
5. Yn cynnwys cyrff nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru, ond sy'n gweithredu yng Nghymru.
6. Ceir canllawiau a chyngor am sut i wneud hyn gan Lywodraeth Cymru, partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac Un Llais Cymru.
7. h.y. Nid ar draul y swyddogaethau hynny – ond gwella SUT y cyflawnir y swyddogaethau hynny o safbwynt bioamrywiaeth.



# What is biodiversity?

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd a geir ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, faint sydd ar gael a sut maen nhw'n wahanol yn enetig.







Ein bywyd gwyllt rhyfeddol a'n rhywogaethau a'n cynefinoedd eiconig, sydd nid yn bwysig am eu gwerth cynhenid yn unig, ond hefyd am yr effaith gadarnhaol maen nhw'n eu cael ar bob agwedd o'n bywydau.

# Adran 6
# Dyletswydd Adrodd

**Mae'r ddyletswydd yn mynnu fod:**

- *awdurdodau cyhoeddus yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, cyn belled â bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny yn briodol.*

**Er mwyn cydymffurfio, dylai awdurdodau cyhoeddus:**

- *wreiddio ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadaeth a'u cynllunio busnes cynnar, yn cynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.*

Un Llais Cymru

One Voice Wales

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6**

**Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**

| **Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2025** | |
|---|---|
| **Enw y Cyngor Tref neu Gymuned:** | |

**Cyflwyniad a'r Cyd-destun**

- Disgrifiad byr o'r Cyngor, ei swyddogaethau a'r cyd-destun o ran
  - sut y gallai helpu bioamrywiaeth (trwy ei swyddogaethau rheoli tir, cyllid grant, gweithgareddau addysgol e.e.)
  - graddfa ofodol a lle (e.e. faint o dir mae'n ei gynnwys, poblogaeth, praesept?)
  - cyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd (e.e. a yw'n destun Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?)

**Adroddiad Gweithredu 2023 - 2025**

| **Camau gweithredu i...** | | **Wedi eu monitro gan:** |
|---|---|---|
| -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | | |
| -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | | |
| -diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd | | |
| -adfer & chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | | |
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | | |
| -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | | |
| -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | | |

# <u>Cynllun Gweithredu Adfer Natur</u>

Mae **<u>Cyllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP)</u>** yn gosod chwe amcan ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a dylid eu defnyddio i helpu i ddatblygu ac arwain gweithredoedd i gydymffurfio â dyletswydd adran 6:

Y **6 amcan** i gynnal a gwella bioamrywiaeth yw:

**Amcan 1**: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel

**Amcan 2**: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y'u rheolir

**Amcan 3**: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd

**Amcan 4**: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd

**Amcan 5**: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro

**Amcan 6**: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflenwi




# Y Gofynad i Adrodd yn Ôl


*Mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad ar yr hyn a wnaethant i gydymffurfio â'r ddyletswydd.*

*Roedd yr adroddiad cyntaf i fod i mewn ar ddiwedd Rhagfyr 2019, yna bydd yn rhaid cyhoeddi adroddiadau pellach cyn diwedd pob trydedd flwyddyn – mae'r un nesaf yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn hon.*

*Mae adroddiadau yn darparu tryloywder, atebolrwydd ac offeryn cyfathrebu.*







- Yn weithredol i BOB Cyngor Cymuned a Thref.
- Yn weithredol i BOB Cyngor p'un ai ydynt yn berchen ar neu'n rheoli unrhyw adeiladau neu dir ai peidio.
- Mae yna nifer o newidiadau bychain y gall Cyngor eu gwneud i helpu bioamrywiaeth, waith beth yw maint y Cyngor neu ei braesept.

| Grŵp | Disgrifiad o sefydliad mewn perthynas â bioamrywiaeth<br><br>**Sefydliadau:** | Camau Gweithredu Sylfaenol | Enghreifftiau | Amcanion NRAP ar gyfer Adrodd ar gamau Gweithredu (Gweler Templedi) |
|---|---|---|---|---|
| **1** | • sy'n berchen neu'n meddiannu adeilad swyddfa yn unig<br>• ac nad yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir. | Camau sy'n gysylltiedig a rheoli adeiladau, caffael, cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. | Comisynau, DVLA | Amcanion NRAP:<br>**1, 4, a 6** |
| **2** | • sy'n berchen yn meddiannu neu'n rheoli eu adeiladau a'u tir eu hunain,<br>• y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig a bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu<br>• sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir. | Fel Grŵp 1 uchod A rheoli tir, rhaeadru meini prawf cyllido, darparu addysg a hyfforddiant | Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgolion, Chwaraeon Cymru | Amcanion NRAP:<br>**1,4, a 6**<br>*fel uchod +*<br>Amcanion NRAP:<br>**2, 3, a 5**<br>*yn ymwneud â thir y sefydliad* |
| **3** | • sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt I'w tir eu hunain, waeth a yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio. | Fel Grwpiau 1 a 2 uchod A rheoli tir er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. | Dŵr Cymru, Awdurdodau Lleol, CNC, Llywodraeth Cymru | Holl amcanion NRAP:<br>**1,2,3,4,5 a 6** |

**1**: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel

**4**: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd


**6**: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflenwi.

**2**: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, gwella'r modd y'u rheolir

**3**: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinioedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd

**5**: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro

# Gofyniad Adran 6 – Mewn Crynodeb


Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyngor Tref neu Gymuned: | |
| Math o gyngor (Grŵp 1,2, neu 3 ar gyfer amcan NRAP) | |

**Cyflwyniad a'r Cyd-destun**


*Disgrifiad byr o'r Cyngor, ei swyddogaethau a'r cyd-destun o ran:*

- *sut y gallai helpu bioamrywiaeth (trwy ei swyddogaethau rheoli tir, cyllid grant, gweithgareddau addysgol e.e.).*
- *graddfa ofodol a lle (e.e. faint o dir mae'n ei gynnwys, poblogaeth, praesept?).*
- *cyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd (e.e. a yw gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol iddo?).*

| Amcan NRAP | Amcan Bioamrywiaeth | Camau arfaethedig | Graddfa amser | Wedi eu monitro gan: |
|---|---|---|---|---|
| 1 | -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | | | |
| 1 | -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | | | |
| 2 | -diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd | | | |

Un Llais Cymru / One Voice Wales 2023

3



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | -adfer & chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | | | |
| 4 | -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | | | |
| 5 | -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | | | |
| 6 | -cefnogi capasiti a/neu sefydliadau eraill | | | |

| Adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Dyddiad yr adolygiad: | |
|---|---|---|
| Beth sydd wedi gweithio'n dda? | | |
| Beth fu'r rhwystrau? | | |
| Beth fyddwch yn ei newid? | | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr adolygiad nesaf: | |
| Cymeradwywyd gan y Cyngor ar: | |

Un Llais Cymru / One Voice Wales 2023

4

## Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

Ei gyhoeddi'n flynyddol
neu
Cynllun 3 blynedd (ei adolygu'n flynyddol)

### Cynnwys (Amser dyfodol)

Manylion y camau y mae'ch Cyngor yn bwriadu eu cymryd dros yr 1 (neu'r 3) blynedd.

## Adroddiad Adran 6

Cyhoeddi bob 3 blynedd
2019
2022
2025

### Cynnwys (Amser gorffennol)

Manylion yr holl gamau a gymerwyd gennych dros y 3 blynedd fel rhan o CGB y Cyngor.